


Aberporth-Parcellyn



Cynllun Lluoio Lleoedd

Gallwch weld y cynllun hwn ar

<https://placemaking-ceredigion.wales/cy/>

Ile gallwch ddysgu am eich cymuned, darllen straeon, gwyllo ffilimau byr a gwranddo ar bobl leol yn siarad am yr hyn mae eu pentref yn ei olygu iddyn nhw heddiw, eu hatgofion o'r gorffennol a'u gobeithion am y dyfodol.



Diben

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi pwyslais cryf ar gydweithio â'i gymunedau a'i lleoedd.

Ar ôl datblygu Cynlluniau Lle ar gyfer rhai o brif drefi'r sir rai blynyddoedd yn ôl, mae'n canolbwyntio bellach ar helpu cymunedau gwledig, llai.

Y tair cymuned ar ddeg yw:

Aberporth/Parclyn, Bow Street, Cenarth,
Felinfach/Ystrad Aeron, Llanarth, Llanilar, Llan-non,
Llanrhystud, Penrhyncoch, Pontarfynach,
Pontrhydfendigaid, Talybont, Y Borth

Mae'r Prosiect Lluio Lleoedd wedi helpu cymunedau i ddeall eu hanghenion, llunio gweledigaeth a chanfod blaenoriaethau, a manylir ar hyn yng [ngwefan](#) dogfen y cynllun Lluio Lleoedd unigryw hwn.

Hon yw dogfen y cynllun Lluio Lleoedd.

Mae'r cynllun wedi cael ei lunio trwy ddeall eich cymuned a chreu portread bro a thrwy gyfres o weithgareddau ymgynghori wyneb yn wyneb a digidol.

Gweithgarwch allweddol

Portread Bro

Mae hwn wedi creu adnodd lle gall trigolion a grwpiau lleol ganfod ffeithiau a ffigurau allweddol am eu cymuned megis poblogaeth, tai, iechyd, gweithgarwch economaidd a mwy. Mae'n ein galluogi i ddeall pa siopau a chyfleusterau lleol sydd i'w cael yn eich pentref a sut mae pobl yn symud o gwmpas.

Stori eich Cymuned

Fel rhan o'r prosiect, cynigiwyd cyfres o gyfleoedd i'r cymunedau roi eu barn ar anghenion eu pentrefi a syniadau ar eu cyfer. Roedd cymysgedd o sesiynau cymunedol wyneb yn wyneb ac ymgynghori digidol yn sicrhau bod cymaint â phosibl o aelodau'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan.

Wyneb yn Wyneb

Trefnwyd sesiwn alw-heibio gymunedol ym mhob un o'r 13 ardal cyngor cymuned, mewn partneriaeth â chynghorwyr lleol a lleoliadau cymunedol. Roedd pob sesiwn yn parhau am tua saith awr ac wedi ei chynllunio fel digwyddiad anffurfiol agored i bawb lle gallai trigolion ddod draw unrhyw adeg o'r dydd i rannu eu barn trwy amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol. Cafodd y digwyddiadau hyn eu hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, poster

printiedig a rhwydweithiau e-bost. Roedd fformat y digwyddiad yn cynnwys:

- Cyflwyniad byr i'r fenter Llunio Lleoedd, yn esbonio ei diben, amcanion, etc.
- Cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i asesu pa mor dda mae eu pentref yn ei wneud mewn meysydd fel trafniadaeth, cyfleusterau etc, gan ddefnyddio partrwm graddio syml.
- Gosod pinnau ar fap mawr o'r pentref i ddangos pryderon allweddol a syniadau'n ymwneud â lleoliadau, adeiladau a llecynnau allweddol.
- Trafodaethau agored i annog mynychwyr i rannu syniadau, pryderon a dyheadau ychwanegol, y tu hwnt i weithgareddau eraill.
- Cyd-drafod â'r tri artist a'u cyfryngau creadigol i drafod y pentref a'i ymdeimlad o le.

Digidol

Rhoddodd y prosiect ffyrdd digidol hefyd i bobl gyflwyno sylwadau, gan ddarparu offeryn mapio ar-lein, arolwg, a'r dewis i anfon sylwadau trwy e-bost.

Daethpwyd â'r holl sylwadau hyn at ei gilydd mewn adroddiad o'r ymgynghoriad.

Gweledigaeth a Syniadau'r Gymuned

Yn dilyn dadansoddi data a ffigurau, cyfarfod trigolion a grwpiau lleol mewn sesiynau galw heibio yn y pentrefi a darllen sylwadau digidol pobl, roedd y sgysiau cymunedol yn helpu'r prosiect i gyrraedd y dasg o awgrymu syniadau ar gyfer pob pentref.

Cafodd y syniadau hyn eu rhannu'n ddigidol gyda'r gymuned leol trwy rannu map syniadau rhyngweithiol a oedd yn ceisio barn ar syniadau a oedd yn gysylltiedig â lleoliadau penodol. Gofynnwyd hefyd i bobl a grwpiau lleol am syniadau nad oedd yn gysylltiedig â lleoliadau penodol, ee gwella band eang digidol, yn ogystal â rhoi cyfle i bobl wneud sylwadau cyffredinol ar y prosiect hwn.

Mae'r holl sylwadau lleol o'r sesiynau galw-heibio cymunedol a'r mapiau syniadau a'r arolwg digidol wedi helpu'r cynllun hwn ar gyfer eich cymuned. Diolch i'r rheini sydd wedi helpu i lunio'r cynllun hwn.

Os oes arnoch eisiau gweld proffil eich ardal leol, stori eich cymuned, gan gynnwys gwaith y tri artist ar ymdeimlad eich pentref o le, ewch i:



<https://placemaking-ceredigion.wales/cy/>

Detholiad o Mowing Lawns, Lawn Atgofion gan Hattie Morrison 2026

“The village used to be a hub of industry and fishing, where boatsmen and farm hands would row and tow the mackerel into land. The village had a purpose that Cardigan Bay knows, but as time passes over, the future has to come, and will go. What is there to say about Aberporth and Parcilyn? Beautiful two beaches, nearby towns within arm’s reach. Neighbours know each other, and a brilliant school to teach. The memory of wartime lingers firmly on the cliff and the people who live here have plenty of stories to give.”¹

¹
Detholiad o *Mowing Lawns, Lawn Atgofion* gan Hattie Morrison 2026. I ddarllen neu wrando ar fonolog llawn Hattie Morrison am Aberporth-Parcilyn, [cliciwch yma](#)

Gweledigaeth


Cymuned arfordirol gysylltiedig a ffyniannus lle mae ffordd iach o fyw ac ymdeimlad cryf o berthyn yn rhan annatod o fywyd i bobl o bob oedran a chefnidir. Mae Aberporth a Parcilyn wedi tyfu mewn ffordd gytbwys, sy'n ymateb i bwysau galw arfordirol, tai a thwristiaeth a hefyd yn darparu cyfleusterau ar gyfer cymuned fywiog, eu galluogi i symud yn saffach, a chyfleoedd i bawb. Mae tirwedd gwarchodedig, gwell mynediad at fyd natur, a dathlu treftadaeth ddiwylliannol yn cryfhau hunaniaeth yr holl gymuned.



2

² Gwaith celf a grewyd gan Meinir Mathias a phlant ysgol lleol yn ystod sesiwn galw-heibio Aberporth-Parcilyn, Tachwedd 2025

Blaenoriaethau a Themâu



Dyheadau

Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Cyfleusterau Cymunedol	4.	Archwilio opsiynau ar gyfer darpariaeth i bobl ifanc o fewn nifer o leoliadau cymunedol yn ogystal â rhaglen o weithgareddau awyr agored. Gweithgareddau'n canolbwyntio ar fentergarwch ieuenctid, gweithgareddau natur/awyr agored ac arloesi/technoleg.	Prosiect datblygu	Cyngor Cymuned Aberporth/ Cyngor Sir Ceredigion			
	5.	Datblygu darpariaeth chwarae i grŵp oedran ehangach sy'n hygyrch a chynhwysol yn lle chwarae Banc Y Dyffryn a'r cae hamdden cyfagos.	Gweithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Aberporth			
	6.	Gwella mynediad i'r traeth a chyfleusterau gan gynnwys toiledau cyhoeddus a lle storio, dec gwylio, clwb syrffio, cerrig llamu priodol dros Nant Owni ar y traeth, ffyrdd o gyfyngu ar geir yn parcio ar y traeth a gwelliannau eraill.	Gweithiau cyfalaf Rheoli	Aml-sefydliad			
	8.	Asesu capasiti seilwaith lleol ee carthffosiaeth o fewn y gymuned, yn benodol rhwng Parclyn ac Aberporth ee coridor Nant Gilwen.	Dichonoldeb Gweithiau cyfalaf	Dŵr Cymru			

	10.	Creu canolfan gymunedol a llecyn amwynderau newydd. Y rhain i gynnwys: ▪ Pafiliwn newydd gyda dwy ystafell newid i dimau ▪ Lle i grwpiau newid a lle cymdeithasol, addas ar gyfer aml-ddefnydd, gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd bach, Pilates, cyfarfodydd a chefnogi gweithgareddau'r cae ▪ Ymestyn y cae presennol i faint llawn ar gyfer cystadlaethau i oedolion a'i uwchraddio ▪ Cyflwyno dau le chwarae 9v9 i ieuenctid ▪ Yr ardal gyffredinol i roi lle i weithgareddau haf – gŵyl, dyddiau chwaraeon, rhedeg am hwyl, rownderi, pêl fas, criced. ▪ Lle i barcio hyd at 30 o geir ▪ Gwella'r fynedfa ▪ Datblygu ardal bioamrywiaeth gerllaw ffiniau llecyn agored yr MOD ▪ Llwybrau cerdded, a lleoedd/meinciau picnic, biniau sbwriel, lle i fynd â chwn am dro	Prynu tir Datblygu Gwaith cyfalaf	Seilwaith ac Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn Cyngor Cymuned Aberporth			
--	-----	--	--	--	--	--	--

		- Cyflwyno clawdd ar ochr y ffordd i wella golwg y safle, a bioamrywiaeth. Gallai syniadau pellach ar gyfer y safle gynnwys: - Trac pwmp o fewn yr ardal bioamrywiaeth - Parc sglefrio rhwng y prif gae chwarae a'r cae chwarae iau.					
--	--	--	--	--	--	--	--

Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
	11.	Galluogi datblygu tai gwledig ar safleoedd a ddyranwyd, sy'n cefnogi tai cytbwys o ran oedran ac sy'n dilyn codau dylunio lleol, ac yn integreiddio â'r gymuned leol. Bod yn ymwybodol o'r cyflenwad presennol o ail gartrefi.	Dan arweiniad y sector cyhoeddus/preifat	Datblygwr / darparwr tai			
	12.	Datblygu gwasanaethau iechyd symudol sy'n defnyddio lleoliadau cymunedol ar gyfer gwiriadau iechyd, sgrinio, brechu, gofal clwyfau a gwasanaethau meddygon teulu.	Dichonoldeb Cyllid refeniw	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda			

	13.	Datblygu gweithgareddau llesiant ee siediau dynion, rhandiroedd, caffi cymunedol.	Dichonoldeb	Cyngor Cymuned Aberporth			
Symud a Thrafnidiaeth	1.	Gwella pyrth a lleihau cyflymder traffig i mewn i'r pentrefi gyda nodweddion graddol sy'n cynnal y terfyn cyflymder ac yn codi ymwybyddiaeth o droadau dall a risgiau eraill. Arwyddion, ymestyn darnau o'r pafin allan, planhigion (os yn ymarferol), ymgyrch a gynllunir gan yr ysgol gynradd.	Gwaith cyfalaf	Cyngor Sir Ceredigion / Cyngor Cymuned Aberporth			
	3.	Gwella llwybrau a goleuadau ar ffyrdd allweddol (ysgol, siopau, y traeth) sy'n sensitif i'r galw (synwryddion symud/traffig).	Dichonoldeb Gweithiau cyfalaf	Cyngor Sir Ceredigion / Cyngor Cymuned Aberporth			
	7.	Rheoli traffig a phobl o amgylch Ffordd Yr Odyn sy'n dangos y ffordd i gerddwyr yn yr ardal, cyfeirio pobl trwy'r maes parcio, darpariaeth parcio i'r anabl a mynediad ramp i'r traeth. Trin y gerbyttfordd ac arwyddion ychwanegol.	Dichonoldeb Gweithiau cyfalaf	Cyngor Sir Ceredigion			
	14.	Canfod safleoedd ar gyfer darpariaeth parcio oddi ar y stryd (tymhorol/cyfnod brig/gorlif).	Dichonoldeb Gweithiau cyfalaf	Cyngor Sir Ceredigion Tirfeddianwyr			

	15.	Dichonoldeb cynllun llogi e-feiciau cymunedol sy'n cysylltu cymdogaethau cyfagos.	Dichonoldeb Cyllideb refeniw	Cyngor Cymuned Aberporth /Cyngor Sir Ceredigion			
--	------------	---	------------------------------	---	--	--	--



Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Yr Amgylchedd Lleol	2.	Rheoli datblygiad rhwng Aberporth a Tresaith, gwarchod caeau gwyrdd a thir ffermio, a hunaniaethau'r ddwy gymuned hyn.	O dan arweiniad cynllun datblygu	Cyngor Sir Ceredigion			
	9.	Gwella hawliau tramwy cyhoeddus ledled yr holl gymuned, fel eu bod yn glir o lystyfiant, wedi eu harwyddo'n glir ac yn cysylltu â'i gilydd i greu cylchdeithiau.	Cymunedol / amser gwirfoddolwyr Mân-weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Aberporth / Cyngor Sir Ceredigion			
	16.	Gwella bioamrywiaeth mewn parciau, ymylon ffyrdd, llecynnau amwynderol a thir cyhoeddus a danddefnyddir, trwy blannu coed cynhenid a chynefinoedd cymysg sy'n helpu gyda chadw dŵr, dal a storio carbon a llesiant cyffredinol.	Cymunedol / amser gwirfoddolwyr Mân-weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Aberporth / Cyngor Sir Ceredigion Grwpiau Lleol eraill			
Treftadaeth Lleol	17.	Cefnogi Llwybr Barddoniaeth Aberporth, sy'n gylchdaith gerdded o 2.45 milltir (3.9 km) trwy goetiroedd hardd gydag ymwelwyr yn cael gweld detholiad o gerddi Dic	Cymunedol / amser gwirfoddolwyr Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Aberporth			

		Jones. Nod y Cyngor Cymuned yw darparu: ▪ Ap dwyieithog am ddim a fydd yn dehongli'r llwybr a rhoi gwybodaeth am fywyd a gwaith Dic Jones, ▪ Cynnal Digwyddiad Lansio yng Nghapel Blaenannerch Chapel a fydd yn ail-fywysbryd yr Eisteddfod gyntaf yn Aberteifi yn 1176.					
	18.	Datblygu deunydd dehongli treftadaeth ledled y gymuned a'i hyrwyddo mewn mannau cyrraedd allweddol ee maes parcio, toiledau cyhoeddus, parciau, etc.	Cymunedol / amser gwirfoddolwyr Mân-weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Aberporth			
Hyrwyddo'r Gymuned	19.	Datblygu gwefan gymunedol sy'n dathlu bywyd yn Aberporth-Parclyn, rôl y cyngor cymuned, dangos beth sydd ymlaen, a gwybodaeth leol arall.	Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Aberporth			

